TEITL YR ASTUDIAETH

# A YW ANODDEFGARWCH ANSICRWYDD (IOU) YN WAHANOL I ORBRYDER CYFFREDINOL MEWN OEDOLION AG AWTISTIAETH, AC YN GANOLOG I'R PROFIAD O ORBRYDER YM MYWYD BOB DYDD?

**Cyfeirnod y Prosiect: [29216Ha]**

Ymchwilwyr yn y prosiect: Eleanor Gamble (Ymgeisydd PhD) a Dr Catherine O'Hanlon

Yr Adran Seicoleg

Rwy'n cynnal astudiaeth ymchwil sy'n rhan o fy mhrosiect PhD. Mae'r astudiaeth yn ymchwilio i Anoddefgarwch tuag at Ansicrwydd (IoU), sef gorwerthuso rhagweladwyedd a'r duedd i gael eich llethu gan yr anhysbys neu'r annisgwyl (Carleton, 2016; Jenkinson et al., 2020), a'i berthynas â phryder ymhlith pobl awtistig. Y nod cyffredinol yw ymchwilio i berthynas IoU â nodweddion awtistig ymhlith unigolion awtistig yn ogystal ag ymhlith y rhai yn y boblogaeth gyffredinol sy'n uniaethu fel niwronodweddiadol, a/neu sy'n profi gorbryder neu bryder cymdeithasol mewn bywyd bob dydd. Os ydych chi'n cymryd rhan fel cyfranogwr awtistig, mae angen i chi fod ag anghenion cymorth isel, ac felly'n byw bywyd annibynnol i raddau helaeth. Nid yw cael tiwtor cymorth prifysgol yn eich hepgor rhag cymryd rhan. Darperir rhagor o feini prawf cynnwys a hepgor yn y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr, sydd i'w gweld drwy sganio'r codau QR ar ochr dde'r dudalen hon.

O fewn yr astudiaeth, byddaf yn mesur nodweddion gorbryder cyffredinol a chymdeithasol, a nodweddion awtistiaeth, a byddaf yn defnyddio'r wybodaeth hon i ffurfio grwpiau o nodweddion gorbryder/awtistiaeth isel ac uchel. Rwyf hefyd yn ceisio pwyso a mesur a yw Anoddefgarwch tuag at Ansicrwydd yn wahanol mewn dynion a menywod, yn enwedig ymhlith unigolion awtistig. I'r perwyl hwn, gofynnir i chi am eich rhyw adeg geni yn y cwestiynau demograffig o fewn yr arolwg, yn ogystal â'ch rhywedd, ond dim ond at ddibenion disgrifio grŵp/sampl y defnyddir eich rhywedd. Mae'r holl gwestiynau demograffig (a'r arolwg) yn ddewisol, ond bydd darparu'r wybodaeth hon yn ein helpu i graffu ar nodau'r astudiaeth. Byddwch yn ymwybodol o'r agwedd hon ar yr astudiaeth wrth benderfynu a hoffech gymryd rhan.

Mae'r astudiaeth yn cynnwys dwy ran, arolwg, a thasg gyfrifiadurol, a gynhelir ar-lein ac yn gwbl ddienw.

Rwy'n chwilio am bobl 18 oed a hŷn. Ni chaiff unrhyw un o dan 18 oed gymryd rhan.

Os hoffech sgwrs un-i-un gyda'r ymchwilydd i'ch helpu i benderfynu a ydych am gymryd rhan, cysylltwch ag Ellie, yn y cyfeiriad e-bost canlynol: elg42@aber.ac.uk.

Os ydych chi'n hapus i ddarllen y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr i benderfynu a hoffech gymryd rhan, sganiwch un o'r codau QR ar y dde: y fersiwn Saesneg ar y brig, a'r fersiwn Gymraeg oddi tano.

**Os ydych chi'n cymryd rhan, cwblhewch yr arolwg holiaduron yn gyntaf, yna, ewch i'r tasgau cyfrifiadurol drwy'r ddolen ar ddiwedd yr arolwg. Ar ddiwedd yr arolwg, rhoddir cod adnabod personol i chi y mae angen i chi ei nodi mewn blwch ar ddechrau'r tasgau cyfrifiadurol; fel arall, ni allwn gysylltu eich atebion i'r arolwg â'ch atebion i'r tasgau cyfrifiadurol! DIOLCH YN FAWR.**

SGANIO COD QR I GAEL MYNEDIAD I'R AROLWG YN ENGLSIH

OR **CLICK HERE**

SGANIWCH GOD QR I GAEL MYNEDIAD AT WYBODAETH CYFRANOGWYR YN GYMRAEG

OR **CLICK HERE**